Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Cae'r Ffair
# 2 Heol yr Eglwys
# Gorslas
# Llanelli
# SA14 7NF

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016

## gan

## Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

## ac

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol, sef:
www.estyn.llyw.cymru
www.cssiw.org.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/04/2016**

## Ynglŷn â'r lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Cae'r Ffair Limited |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cofrestredig/Unigolion Cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Sharon James |
| Unigolyn sydd â gofal | Sharon James, Charlette Richards a Ceri Davies. |
| Nifer y lleoedd | 39 |
| Ystod oedran y plant | 0 i 11 oed |
| Nifer y plant y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg | 16 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8:00am tan 6:00pm |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | 28 Awst 2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 14 Mai 2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 23 a 24 Chwefror 2016 |

**Gwybodaeth ychwanegol**

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Meithrinfa Cae'r Ffair Ltd. Ar hyn o bryd, mae 16 o blant yn cael cyllid y blynyddoedd cynnar. Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad Cymraeg fel eu prif iaith. Nid oedd unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad adeg yr arolygiad.

## Crynodeb o'r Adroddiad

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Rhagorol |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu | Rhagorol |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Rhagorol |

**Diffyg cydymffurfio**

**Ni nodwyd unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn ystod amser prydau bwyd

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhelliad. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Lles | Da |
|---|---|

Mae bron pob un o'r plant yn siarad neu'n mynegi eu hunain yn glir ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau da ynglŷn â ble i chwarae a gyda phwy. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud awgrymiadau ynglŷn â beth y mae arnynt eisiau ei ddysgu yn ystod cyfnod cynllunio'r thema ar gyfer y tymor. Caiff y syniadau hyn eu cofnodi ar fap meddwl. Maent yn gwybod y bydd ymarferwyr yn gweithredu yn unol â'u dymuniadau ac yn bodloni eu hanghenion yn briodol. Er enghraifft, os bydd plentyn yn ceisio cael sylw trwy ymestyn ei freichiau allan, bydd ymarferwr yn cofleidio'r plentyn ar unwaith. Mae bron pob un o'r plant yn hyderus ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a gyda'r ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hoffterau'n hyderus; er enghraifft, roedd un plentyn yn chwarae â cheir gan nad oedd arni eisiau ymuno â sesiwn ddawns.

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym. Maent yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol â'u gweithwyr allweddol a phlant eraill. Maent wedi ymlacio, wedi ymgartrefu ac yn gysurus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn fodlon ac yn mynegi eu mwynhad trwy wenu a chwerthin. Caiff unrhyw blant anniddig eu cysuro'n gyflym ac maent yn ymgyfarwyddo â'r drefn ddyddiol yn rhwydd.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn eithriadol o dda. Maent yn cymryd eu tro ac yn helpu ei gilydd pan fo'n briodol. Maent yn parchu eu cyfoedion ac oedolion, ac yn rhannu adnoddau, ac yn gofalu amdanynt yn dda. Mae bron pob un o'r plant hŷn yn deall y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac maent yn dweud 'diolch', pan fo'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant hŷn yn rhannu, yn cyd-chwarae ac maent yn dechrau dangos pryder am eu ffrindiau. Er enghraifft, fe wnaeth un plentyn gofleidio plentyn arall yn fympwyol yn ystod sesiwn gerddorol a gofyn 'wyt ti'n iawn?'

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu fel chwarae â thoes i greu siapiau diddorol. Maent yn frwdfrydig ac yn canolbwyntio'n dda ar eu tasgau. Maent yn ymgysylltu, yn dangos diddordeb ac yn teimlo'n gyffrous wrth ddysgu medrau newydd, yn dyfalbarhau â'u tasgau ac yn ymateb yn dda i anogaeth gan ymarferwyr. Er enghraifft, gydag anogaeth, maent yn gweithio gyda'i gilydd i ofalu am anifeiliaid anwes y lleoliad. Mae bron pob un ohonynt yn cael ymdeimlad o gyflawni o lwyddo yn yr hyn a wnânt. Mae gan bron bob un o'r plant fedrau hunangymorth da ac maent yn dod yn ddysgwyr annibynnol. Maent yn golchi eu dwylo gyda chymorth cyfyngedig ac mae plant hŷn yn bwyta eu prydau yn annibynnol. Gallant ddefnyddio a dewis adnoddau sydd ar gael iddynt yn rhwydd gan fod y rhain yn cael eu storio ar lefel isel i hyrwyddo annibyniaeth a hunan-barch plant. Fodd bynnag, nid yw plant bob amser yn datblygu eu medrau annibynnol yn ddigon da yn ystod amseroedd prydau bwyd, er enghraifft taenu menyn ar eu tost. Yn ystod chwarae dan do ac yn yr awyr agored, mae bron pob un o'r plant yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael ac yn symud yn rhwydd o un gweithgaredd i'r llall.

| Dysgu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig) | Rhagorol |
|---|---|

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yng Nghae'r Ffair.

Mae medrau gwrando bron pob un o'r plant yn datblygu'n dda iawn. Mae llawer o blant sy'n fwy abl yn meddu ar fedrau llythrennedd rhagorol. Mae bron pob un o'r plant hŷn yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar oedolion. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau sydd wedi eu seilio ar eu thema dymhorol ac yn ymateb yn hyderus i gwestiynau a heriau. Mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad. Maent yn llwyddo i sicrhau bod pobl yn eu deall ac yn gynyddol hyderus wrth siarad â'i gilydd a gydag oedolion, er enghraifft wrth siarad am eu hymweliad diweddar â fferm leol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n raddol wrth iddynt symud trwy'r lleoliad. Mae bron pob un ohonynt yn deall diben ysgrifennu ac yn dangos rheolaeth dda o amrywiaeth o offer i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn llunio rhestrau siopa yn siop y dosbarth ac yn mwynhau ysgrifennu ar y tabl creu marciau ac yn yr hambwrdd tywod, neu'n ffurfio llythrennau gan ddefnyddio deunyddiau crefft. Mae'r rhan fwyaf o'r plant hŷn yn dal pensil yn gywir ac yn ysgrifennu eu henw yn annibynnol.

Mae medrau darllen cynnar y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda iawn. Mae ganddynt ddiddordeb brwd mewn llyfrau, maent yn eu dal yn y ffordd gywir ac yn troi'r tudalennau'n hyderus, gan gysylltu'r storïau ar sail y lluniau. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus am eu hoff lyfrau, ac yn esbonio pam maent yn eu hoffi.

Mae medrau rhifedd plant yn datblygu'n eithriadol o dda. Mae gan y rhan fwyaf o blant ymwybyddiaeth gynyddol o rif. Gallant gyfrif gwrthrychau'n hyderus i 10 o leiaf, a gwneud gwaith adio syml mewn sefyllfaoedd go iawn, er enghraifft wrth adio nifer y poteli llaeth â thopiau gwyrdd at y poteli â thopiau glas. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dechrau deall cysyniad gohebiaeth un i un. Yn siop y dosbarth, mae llawer ohonynt yn defnyddio darnau arian gyda hyder cynyddol i brynu eitemau amrywiol ar eu rhestrau siopa. Maent yn cyfrif faint o ddarnau arian sydd eu hangen arnynt i brynu eitemau penodol, ac yn deall na allant brynu mwy pan fyddant wedi gwario eu harian i gyd. Gall y rhan fwyaf o blant drefnu gwrthrychau yn ôl eu maint a didoli eitemau yn unol â meini prawf penodol, fel lliw neu siâp. Gall y rhan fwyaf ohonynt enwi siapiau dau ddimensiwn yn gywir yn Gymraeg ac mae bron pob un ohonynt yn adnabod eu lliwiau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus yn ystod gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn, gweithgareddau ffocysedig a gweithgareddau manylach. Er enghraifft, maent yn rhaglennu tegan i symud o un gwrthrych i'r llall ar fwrdd, ac yn tynnu ffotograffau digidol o'i gilydd, er enghraifft wrth wneud brechdanau esgus. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau echddygol manwl wrth deipio eu henwau a thynnu lluniau ar gyfrifiadur y dosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar fedrau creadigol da iawn. Maent yn peintio delweddau hawdd i'w hadnabod o anifeiliaid yn annibynnol, fel 'Llew y ci', ac yn creu lluniau diddorol o gennin Pedr. Maent yn canu caneuon a rhigymau yn hapus gyda mynegiant a brwdfrydedd.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad corfforol a gallant symud o gwmpas yn hyderus, er enghraifft wrth gymryd arnynt eu bod yn anifeiliaid amrywiol. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau i symud yn araf, yn gyflym neu'n dawel.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau personol a chymdeithasol da iawn. Maent yn cymryd eu tro ac yn awyddus i helpu ei gilydd. Mae bron pob un ohonynt yn mwynhau cymryd cyfrifoldeb a helpu'r ymarferwyr, er enghraifft pan fyddant yn cymryd cyfrifoldeb am fod yn 'Helpwr Bach Cae'r Ffair'. Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda.

Mae medrau datrys problemau bron pob un o'r plant yn datblygu'n gadarnhaol. Er enghraifft, mae plant yn ceisio canfod faint o fagiau sydd eu hangen ar gyfer eu siopa ac yn ymateb yn hyderus i broblemau rhif heriol, fel gosod nifer benodol o ddefaid tegan mewn cae penodol yn y fferm deganau.

| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i ddiogelu, ac mae'n hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus iawn. Mae gan bob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn briodol. Mae ymarferwyr yn annog pob un o'r plant i gymryd rhan mewn cynlluniau amrywiol sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, fel brwsio dannedd. Maent yn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith yn effeithiol iawn. Mae'r lleoliad yn rhoi byrbrydau iach i blant, prydau sy'n cael eu paratoi'n ffres a digonedd o ymarfer corff ac awyr iach. Mae gweithdrefnau ac arferion hylendid yn dda ac anogir plant i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant diogelu, ac mae gan bron pob un ohonynt y cymwysterau cymorth cyntaf perthnasol.

Mae pob ymarferwr yn darparu gofal a chymorth da iawn ar gyfer plant. Maent yn canmol ymddygiad a chyflawniadau da ac yn cynnig anogaeth yn gadarnhaol pan fydd plant yn ceisio gwneud pethau drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae ymddygiad plant yn eithriadol o dda. Mae gan y lleoliad bolisi ymddygiad effeithiol, y mae pob ymarferwr yn ei roi ar waith yn dda. Mae'r lleoliad yn cynnal cofnodion cynhwysfawr, fel contractau a ffurflenni gwybodaeth plant, asesiadau risg a rhestrau gwirio dyddiol, i sicrhau bod lefelau uchel o ofal.

Mae'r holl ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffterau unigol. Mae plant yn cael gofal sy'n gyson â'u harferion unigol. Er enghraifft, amser prydau bwyd, bydd plant sy'n cysgu yn cael eu prydau bwyd pan fyddant yn deffro. Mae hyn yn gryfder yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd meithringar a gofalgar lle daw anghenion y plant yn gyntaf. Mae pob ymarfer yn cefnogi datblygiad plant yn fedrus. Maent yn gwybod pryd i ymyrryd i ddatblygu ac ymestyn chwarae plant, a phryd i

gamu'n ôl i alluogi plant i ddefnyddio eu blaengaredd eu hunain. Er enghraifft, mae ymarferwr yn gofyn i blentyn sy'n brysur yn chwarae rôl, "a oes angen llaeth arnat ti ar gyfer y baned o de?" Mae ymarferwyr yn ymateb yn dda i anghenion plant ac yn hyrwyddo eu lles a'u datblygiad yn dda. Maent yn darparu cymorth rhagorol i ddatblygu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol a dysgu plant trwy weithgareddau dawnsio a chanu; tasgau emosiwn a theimlo; a chwarae unigol, grŵp neu chwarae wedi ei arwain gan y plentyn. Mae ymarferwyr yn annog a herio'r plant mwy abl i gyflawni'n dda trwy roi tasgau mwy heriol iddynt, fel cyfrif setiau o wrthrychau a mynd â rhai ohonyn nhw i ffwrdd i annog eu medrau tynnu.

Mae ymarferwyr yn trin pob plentyn ag urddas a pharch. Maent yn fodelau rôl da, sy'n hyrwyddo ac yn annog defnyddio moesau da. Maent yn trin pob plentyn fel unigolion ac yn hyrwyddo cydraddoldeb yn dda iawn trwy adnoddau amrywiol, fel llyfrau a theganau, a thrwy wyliau a dathliadau.

Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau priodol i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol os yw'r angen yn codi. Mae ymarferwyr yn nodi plant sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar, ac maent yn gweithio'n agos ag asiantaethau allanol fel ymwelydd iechyd, Seicolegydd Addysg, therapydd lleferydd a gwasanaethau cymdeithasol i ddarparu cymorth ac arweiniad priodol.

| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig)** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu gwerthfawr ac ysgogol ar draws pob maes dysgu ar gyfer plant. Mae cynllunio tymor hir yn gynhwysfawr ac yn cynnwys themâu diddorol dros gyfnod o dair blynedd. O ganlyniad, mae plant sy'n aros yn y lleoliad am gyfnodau hir yn cael profiadau newydd yn rheolaidd yn hytrach nag ailadrodd gweithgareddau yn ddiangen. Mae ymarferwyr yn cynnwys plant yn llwyddiannus yn y cynllunio tymhorol ac maent yn cofnodi eu syniadau a'u hawgrymiadau yn effeithiol ar fapiau meddwl. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn weithredol yn eu dysgu eu hunain. Mae cynlluniau tymor byr yn cynnwys ffocws clir ar ddatblygu medrau plant ac yn canolbwyntio'n dda ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd o ansawdd uchel i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus ym mhob maes dysgu, dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd. Mae enghreifftiau yn cynnwys gwrando ar storïau, archwilio yn yr ardd, siopa yn siop y dosbarth, a choginio yn y gegin fwd. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd cynnar oherwydd y gweithgareddau hyn.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd rhagorol o ymweliadau ac ymwelwyr i wella a chyfoethogi'r profiadau dysgu a ddarperir ganddynt. Er enghraifft, mae'r heddlu, swyddogion tân, milfeddyg, a chlerigwyr lleol yn ymwelwyr rheolaidd. Mae plant yn ymweld â llawer o leoedd o ddiddordeb bob tymor hefyd, er enghraifft Castell Cydweli wrth ddysgu am gestyll, a fferm leol wrth astudio anifeiliaid. Mae ymarferwyr yn paratoi gweithgareddau penodol ar gyfer y plant yn ystod yr ymweliadau hyn ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus i gymell plant i ddysgu pan fyddant yn mynd yn ôl i'r lleoliad. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog plant i siarad yn rhwydd ac yn frwdfrydig am eu hymweliadau ac esbonio'n glir yr hyn y maent wedi ei ddysgu.

Ceir cyfleoedd effeithiol i blant ddatblygu eu medrau TGCh yn arferion dyddiol y lleoliad. Er enghraifft, mae plant yn rhaglennu tegan yn gywir i ddod o hyd i hoff anifail ar grid.

Caiff plant gyfleoedd gwerth chweil i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, er enghraifft wrth astudio cestyll Cymru, a dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae ymweliadau ag ardaloedd atyniadau lleol fel Llyn Llech Owain yn gwella eu dealltwriaeth o hanes Cymru a'u gwybodaeth am yr ardal leol yn dda hefyd.

Mae ymarferwyr yn cynnig ystod dda o gyfleoedd dysgu i feithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn effeithiol. O ganlyniad, mae plant yn deall y gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir a phwysigrwydd bod yn onest, yn deg ac yn barchus. Mae ymarferwyr yn annog plant i ddatblygu synnwyr o chwilfrydedd am eu credoau eu hunain a chredoau pobl eraill trwy gyfleoedd rheolaidd i ymweld â mannau addoli, fel yr eglwys leol.

Mae'r lleoliad yn annog plant a rhieni i ailgylchu amrywiaeth o ddeunyddiau. Mae cân y lleoliad, 'Cod Eco Cae'r Ffair', yn hyrwyddo dealltwriaeth plant o bwysigrwydd cynaliadwyedd. Mae'r lleoliad yn trefnu darpariaeth effeithiol ar gyfer addysgu plant am amrywiaeth trwy ddathlu gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a chroesawu ymwelwyr o Lesotho. Caiff y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y plant o gynaliadwyedd a'r byd y maent yn byw ynddo.

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu hapus a phwrpasol ar gyfer plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o arfer y Cyfnod Sylfaen ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau eu bod yn rhoi profiadau rhagorol i blant yn yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant, a defnyddiant holi yn dda i atgyfnerthu ac ymestyn dysgu'r plant.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol i asesu a chofnodi cynnydd plant. Mae ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth asesu yn llwyddiannus i helpu cynllunio'r camau nesaf ar gyfer pob plentyn. Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd trwy gofnod dyddiol o weithgareddau ac adroddiadau ysgrifenedig ffurfiol.

| **Yr amgylchedd** | **Da** |
|---|---|

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu'r plant. Mae'r ardaloedd dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ffynnu trwy ddarparu ystod werthfawr o gyfleoedd dysgu. Mae cynllun yr adeilad yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn dda ac yn eu hannog i ddysgu a datblygu yn gyfannol.

Rhoddir gofal da i blant mewn amgylchedd addas a diogel. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel, yn gynnes a saff. Mae trefniadau diogeledd da ar waith sy'n sicrhau bod neb yn gallu dod i mewn i'r adeilad yn ddirybudd. Mae ymarferwyr yn effro pan fydd plant yn gadael er mwyn sicrhau nad ydynt yn gadael ar eu pen eu hunain. Mae asesiadau risg yn drylwyr ac fe gaiff rhestrau gwirio dyddiol eu cwblhau a'u hadolygu'n rheolaidd. Caiff ymarferwyr eu defnyddio yn effeithiol ac maent yn goruchwylio plant yn agos yn ystod yr holl weithgareddau i sicrhau eu

diogelwch. Mae ymarferwyr yn cynnal driliau tân rheolaidd ac maent yn wybodus ynghylch beth i'w wneud i sicrhau diogelwch plant mewn achos o argyfwng. Mae ymarferwyr yn cymryd camau effeithiol lle maent yn rhagweld y gallai plant gael dolur trwy faglu dros offer chwarae.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae yn addas ar gyfer plant, yn atyniadol ac yn addas at ei ddiben. Maent yn gwneud yn siŵr fod safon y gwaith cynnal a chadw a glendid ar lefel uchel. Mae pob ardal chwarae yn hyrwyddo medrau hunangymorth plant; er enghraifft, caiff cotiau a bagiau eu storio ar lefel isel i alluogi plant hŷn i wisgo eu cotiau eu hunain. Ceir arddangosfeydd ar draws yr adeilad sy'n hyrwyddo synnwyr plant o berthyn a'u cyflawniadau. Mae plant yn edrych yn falch ar eu gwaith celf sy'n cael ei arddangos ac mae plant hŷn yn awyddus i siarad am yr hyn y maent yn ei wneud. Mae'r amgylchedd yn eang, ac mae'r cynllun a'r dyluniad yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn meithrin chwilfrydedd plant. Mae'r ymarferwyr yn rhoi ethos y Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus trwy greu ardaloedd i chwarae a dysgu, y mae'r rhan fwyaf o blant yn eu defnyddio'n dda iawn. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi digon o le i blant chwarae ar eu pen eu hunain, gyda'u ffrindiau neu fel rhan o grŵp mwy, er enghraifft yn ystod amser cylch pan fydd y rhan fwyaf o blant hŷn yn eistedd gyda'i gilydd. Mae'r ardaloedd chwarae sy'n ddeniadol ac yn cynnwys adnoddau da yn annog plant i chwarae'n hapus ac yn hyrwyddo eu datblygiad cyfan. Gall plant sydd angen lle tawel i orffwys wneud hynny, ac mae gwelyau cot ar gael i fabanod gysgu. Mae cyfleusterau ar y llawr gwaelod yn sicrhau bod plant yn gallu golchi eu dwylo a mynd i'r toiled yn hawdd.

Gall pob plentyn ddefnyddio ystod helaeth o deganau ac adnoddau sy'n briodol ar gyfer oedran a datblygiad ar gyfer chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r ardal yn yr awyr agored yn ddiddorol ac yn gwbl hygyrch, ac mae'n annog dysgu gweithredol fel chwarae blêr a gweithgareddau corfforol yn dda. Mae bron pob un o'r adnoddau yn lân ac yn cael eu cynnal yn dda.

| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae gan yr unigolyn cyfrifol weledigaeth glir iawn ar gyfer y lleoliad, sy'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddarparu safonau uchel o ofal ac addysg ar gyfer y plant. Mae uwch ymarferwyr yn ei chefnogi'n effeithiol, a gyda'i gilydd, maent yn cyfleu'r weledigaeth hon yn glir i bob un o'r ymarferwyr. Ceir synnwyr clir o ddiben a gwaith tîm sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau yn dda. Mae'r unigolyn cyfrifol yn llwyddiannus o ran sefydlu ethos cadarnhaol lle mae plant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ganddi safonau eithriadol o uchel iddi hi eu hun a'i staff, ac mae'n annog ac yn herio pob un o'r ymarferwyr i wneud eu gorau er budd y plant.

Mae gan y lleoliad nodau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio'n dda ar fodloni anghenion plant. Mae pob un o'r ymarferwyr yn rhoi'r rhain ar waith yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae plant yn ddiogel a hapus, ac yn gwneud cynnydd da iawn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod y lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau ac yn rhagori ar y safonau gofynnol cenedlaethol yn rheolaidd. Mae'r datganiad o ddiben yn addysgiadol ac yn darparu darlun clir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei ddarparu.

Mae hunanarfarnu yn rheolaidd ac effeithiol ac yn cynnwys pob ymarferwr. Mae ymarferwyr yn myfyrio'n onest ar ansawdd eu harfer eu hunain a gwaith yr unigolyn cyfrifol. Mae'r lleoliad yn defnyddio ystod dda o dystiolaeth i nodi ei gryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, mae'n defnyddio'r deilliannau o gyfarfodydd gwerthuso, dadansoddiadau o arsylwadau dosbarth a safbwyntiau rhieni, gofalwyr a'r athro ymgynghorol o'r awdurdod lleol. Mae gan arweinwyr hanes da o gyflawniad mewn defnyddio gwybodaeth o hunanarfarnu i wneud gwelliannau parhaus fel gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd plant. Ceir cyswllt clir rhwng deilliannau hunanarfarnu a'r targedau ar gyfer gwella yng nghynllun datblygu'r lleoliad. Mae'r targedau yn y cynllun datblygu yn briodol ac yn canolbwyntio'n dda ar barhau i wella safonau plant mewn meysydd allweddol fel rhifedd, a datrys problemau. Mae arweinwyr yn arfarnu cynlluniau blaenorol yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae'r lleoliad yn parhau i wella deilliannau ar gyfer plant.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn sicrhau bod recriwtio staff yn ddiogel. Mae'n defnyddio ymarferwyr yn effeithiol i fodloni anghenion y plant. Mae'r lleoliad yn bodloni ac yn cynnal y gymhareb ofynnol o ran oedolion i blant ac mae ganddo gynllun trylwyr wrth gefn i gyflogi staff llanw yn ystod cyfnodau o absenoldeb a salwch. Mae gan ymarferwyr ddisgrifiadau swydd cyfoes ac maent yn deall eu cyfrifoldebau'n glir. Mae'r unigolyn cyfrifol yn dirprwyo cyfrifoldebau yn dda ac mae'n fodel rôl rhagorol. Mae'n weladwy ac yn gefnogol i'r lleoliad a'i ymarferwyr, ac mae'n gweithio yn eu plith yn effeithiol, gan fodelu dulliau addysgu yn rheolaidd i wella eu harfer. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r arweiniad hwn ac maent wedi ymrwymo'n llawn i wneud eu gorau. Mae gan bob ymarferwr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad y plentyn ac mae ganddynt gymwysterau addas.

Mae'r lleoliad yn rhoi pwys mawr ar ddatblygu ymarferwyr yn broffesiynol. Mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth o oruchwyliaethau a gwerthusiadau staff rheolaidd i gefnogi'r broses hon yn dda. Mae ymarferwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddi yn rheolaidd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau ymhellach ac maent yn awyddus i rannu eu harbenigedd â'i gilydd. Mae hon yn nodwedd gref ar waith y lleoliad ac mae'n cyfrannu'n dda iawn at gynnal gwaith tîm effeithiol, morâl uchel ymhlith staff a chodi safon gofal, lles a dysgu.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cryf iawn a hirbarhaus â rhieni, y gymuned leol, ac asiantaethau lleol. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar ddiddordeb a brwdfrydedd plant dros ddysgu a'u lles.

Mae partneriaeth gyda rhieni yn rhagorol. Mae'r cyfathrebu rhwng rhieni a'r lleoliad yn dda iawn. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn rhoi pecyn croeso i rieni pan fydd eu plentyn yn dechrau. Mae'r pecyn hwn yn fanwl ac yn cael effaith gadarnhaol ar drosglwyddo'n ddidrafferth o'r cartref i'r lleoliad. Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni'n llawn am themâu a digwyddiadau'r lleoliad trwy gylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol a'r hysbysfwrdd rhieni. Maent yn manteisio'n llawn mewn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni ar amseroedd gollwng a chasglu a thrwy lenwi dyddiadur dyddiol ar gyfer plant iau. Mae hyn yn sicrhau bod y rhieni'n deall beth mae eu plentyn yn ei ddysgu ac mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o anghenion neu bryderon unigol pob plentyn. Pan fydd plant yn trosglwyddo i'r ysgol, mae'r lleoliad yn rhoi cryno ddisg o ffotograffau a chlipiau fideo i rieni o gyfnod eu plentyn yn y lleoliad. Mae hyn yn darparu cofnod datblygiadol defnyddiol ar gyfer y rhieni ac

mae'n cryfhau'r ymdeimlad o gymuned. Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gyda sefydliadau lleol, er enghraifft trwy drefnu hyfforddiant ar gyfer rhieni ynglŷn â sut y gallant gefnogi medrau llythrennedd a rhifedd datblygol eu plant.

Ceir cysylltiadau gwerthfawr â'r gymuned leol, sy'n cynnwys ymweliadau addysgol rheolaidd â'r ysgol leol, siopau'r pentref, y deintydd, yr optegydd a'r parciau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi profiadau dysgu plant, yn cael effaith ar safonau ac yn meithrin synnwyr o barch at eu cymuned ynddynt. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn cymryd rhan yn y carnifal lleol yn rheolaidd, sy'n rhoi cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol.

# Atodiad 1

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – ddim yn berthnasol.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf / Strongly Agree | Cytuno / Agree | Anghytuno / Disagree | Anghytuno'n gryf / Strongly disagree | Ddim yn gwybod / Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 28 | 27 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 96% | 4% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 28 | 24 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| I received information about the setting that enabled me to make an informed choice about whether to use the setting. | 28 | 24 | 4 | 0 | 0 | 0 | Derbyniais wybodaeth am y lleoliad a wnaeth fy ngalluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch p'un ai i ddefnyddio'r lleoliad. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 28 | 26 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child has a keyworker who ensures that his or her needs are met. | 24 | 16 | 8 | 0 | 0 | 4 | Mae gweithiwr allweddol gan fy mhlentyn, sy'n sicrhau bod ei anghenion / ei hanghenion yn cael eu bodloni. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 27 | 23 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 27 | 23 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Care is good. | 28 | 26 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gofal yn dda. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 27 | 24 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 27 | 26 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 96% | 4% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 27 | 24 | 3 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at the setting. | 28 | 27 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 96% | 4% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 26 | 23 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 28 | 22 | 5 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 79% | 18% | 0% | 4% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 28 | 25 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 27 | 19 | 8 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 27 | 24 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 89% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 27 | 22 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| The setting is well run. | 27 | 25 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |

# Atodiad 2

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn a gwefan AGGCC ( www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae’r term hwn yn cwmpasu ystod eang iawn o anghenion. Rydym yn defnyddio’r term anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion heblaw anghenion y rhan fwyaf o blant eraill yn y lleoliad, am nifer o resymau gwahanol. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.)  Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>A1 datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>A2 medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>A3 datblygiad mathemategol<br>A4 datblygu’r Gymraeg<br>A5 gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>A6 datblygiad corfforol<br>A7 datblygiad creadigol |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma yw’r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir fel ei gilydd. |
| **Dechrau’n Deg** | Gwasanaethau sy’n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim ar gyfer plant dwy oed cymwys i roi’r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a’u paratoi ar gyfer yr ysgol.  Maent hefyd yn darparu lefelau cynyddol o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi’r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc.  Mae’r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed.  Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |

| | |
|---|---|
| **Unigolyn allweddol neu system gweithwyr allweddol** | Ymarferwr sy'n cael ei neilltuo ar gyfer pob plentyn yw hwn/hon fel bod unigolyn cyfarwydd, y gall y plentyn ymddiried ynddo, ar gael iddo fel ei fod yn teimlo'n ddiogel a chyfforddus. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys yr Unigolyn Cofrestredig, Unigolyn Cyfrifol neu Unigolyn sydd â Gofal<br><br>• Unigolyn cofrestredig – yr unigolyn sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gallai hwn fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br><br>• Unigolyn cyfrifol – lle mae'r unigolyn cofrestredig yn sefydliad, dyma'r unigolyn sy'n cael ei enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar eu rhan<br><br>• Unigolyn sydd â gofal – yr unigolyn sy'n cael ei benodi gan yr unigolyn cofrestredig i fod yng ngofal y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Ymarferwyr** | Pawb sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant mewn lleoliad |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hyrwyddo'u lles |